OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 633

# Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023

## RHAN 3

## Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**5.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Diwygiadau i'r diffiniadau o "tiriogaethau tramor" a "tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig"

**6.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 1(1)—

(a) yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor"—

(i) hepgorer "Ynysoedd Prydeinig y Wyryf;";

(ii) yn lle "St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Ynys y Dyrchafael a Tristan de Cunha)" rhodder "St Helena, Ascension a Tristan da Cunha";

(iii) ar ôl "Ynysoedd Turks a Caicos" mewnosoder "; Ynysoedd y Wyryf;";

(b) yn y diffiniad o "tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig"—

(i) hepgorer "Ynysoedd Prydeinig y Wyryf;";

(ii) yn lle "St Helena a Thiriogaethau Dibynnol (Ynys y Dyrchafael a Tristan da Cunha)" rhodder "St Helena, Ascension a Tristan da Cunha";

(iii) yn lle "ac Ynysoedd Turks a Caicos" rhodder "Ynysoedd Turks a Caicos; ac Ynysoedd y Wyryf".

### PENNOD 3

### Diwygiadau i'r diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir"

**7.** Yn yr Atodlen, ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel person a ddiogelir"—

(a) yn lle paragraff (e) rhodder—

(**1**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2020/1302 (Cy. 287), O.S. 2021/481 (Cy. 148) ac O.S. 2022/79 (Cy. 28). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

"(e) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo;";

(b) ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(ea) caniatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BJ2 neu 276BO2 o'r rheolau mewnfudo neu baragraff ARAP 16.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo;

(eb) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.2 o'r Atodiad hwnnw i'r rheolau mewnfudo;".